

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 2 Rhagfyr 2019 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc.

### Presennol:

Cyng. Auriol Williams (Cadeirydd)

Cyng. Lyn Jones

Cyng. Des Davies

Cyng. Dilwyn Jenkins

Cyng. Clive Davies (Aelod Lleol y Cyngor Sir)

Cyng. Lloyd Jenkins (*Is-Gadeirydd*)

Cyng. Eurig Lloyd

Cyng. Llinos Price

Mrs Melanie Davies (*Clerc*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, bawb i gyfarfod mis Rhagfyr. Diolchodd i'r Cyng. Lloyd Jenkins am gadeirio cyfarfod mis Tachwedd. Dymunwyd yn dda i Nerys (un o drigolion y gymuned) sydd ar fin mynd i Affganistan am 7 mis. Longyfarchwyd Awen, Hafod sydd wedi achub bywyd dynes yn Awstralia ar ôl cael mêr esgyrn Awen.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Matthew Morgan, Delyth Phillips, Peter Williams.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol**  
Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Jones fod cofnodion mis Tachwedd yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:**
- 5. Materion yn codi:**
  - (a) Cinio Nadolig yr Henoed:** Dydd Gwener, 6 Rhagfyr. Trafodwyd cynnal bingo a raffl ar gyfer y trigolion fyddai'n dod i'r Clwb Golff. Trafodwyd y posibilrwydd o godi arian at elusen lleol yn y cinio.
  - (b) Conau yn Patch:** Cwyn wedi dod i law am fod ceir yn dod allan mwy i ganol y ffordd. Dywedwyd y dylai llinellau melyn ddod ym mis Ebrill. Yn sgil hyn, codwyd yr angen am linellau melyn ym Mhenyparc er diogelwch y bobl sy'n teithio o gwmpas y pentref mewn cadair olwyn.
  - (c) Heol Parcllwyd:** Cyngor wedi bod allan yn llenwi'r ceubyllau. Mae cyflwr y ffordd yn weddol erbyn hyn.
  - (d) Ymddiswyddiad y Clerc:** Mynegodd y Cadeirydd ei thristwch fod y Clerc yn gorffen yn ei swydd. Cynigiodd y Cyng. Lyn Jones i siarad ag ymgeiswyr posibl a thrafodwyd yr angen i hysbysebu'r swydd. Penderfynwyd hysbysebu yn y Gambo a'r Dwrgi a defnyddio'r dudalen Facebook, y wefan a'r hysbysfyrddau.
  - (e) Hen Ysgol y Ferwig:** Dywedwyd bod y papurau ar fin cael eu harwyddo a wedyn y gymuned fyddai'n berchen ar yr hen ysgol. Mae'n bosibl fydd problem o ran defnyddio'r Hen Ysgol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor tra bydd gwaith adnewyddu'n mynd ymlaen yn ystod y misoedd nesaf. Mae'n bosibl y bydd rhaid defnyddio festri capel Pen-y-parc yn y cyfamser.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**  
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o Ddeddf Ariannol 1996.
- 7. Cynllunio:**

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A190781	Teifi Boating Club, Coronation Drive Codi dwy sied	Nid oes gan y Cyngor wrthwynebiad. Anfonwyd sylwadau ymlaen at y Cyngor ar 25 Tachwedd 2019.

- 8. Materion Ariannol**  
**Biliau wedi eu talu:**

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cyflog y Clerc (Tachwedd 2019)	101818	£385.97
Costau'r Clerc (Tachwedd 2019)	101819	£52.15
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Tachwedd 2019)		Dim
SLCC: Aelodaeth 2020	101820	£114.00
Y Cyng. Auriol Williams (Ail daliad Lwfans y Cadeirydd am 6 mis)	101821	£250.00
Cffl Penyparc: Glanhau'r Ystafelloedd Newid)	101822	£225.00
Cffl Penyparc: Glanhau'r Ystafelloedd Newid)	101823	£225.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y biliau uchod yn cael eu talu.

## **Materion ariannol eraill**

Dogfen Cyllideb 2020-2021. Edrychodd y Cynghorwyr ar y ddogfen a byddai'r Clerc yn ail-edrych ar anghysondeb arni cyn cyfarfod mis Ionawr

**Derbyniadau:** Dim.

## **9. Gohebiaeth:**

35	Cardigan Oxygen Therapy Centre	Carden yn diolch am y rhodd ariannol	Nodwyd
36	Cyngor Sir Ceredigion (Cyllid a Chaffael)	Llythyr a ffurflen praesept 2020-21	Edrych ym mis Ionawr
37	Jill Patterson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Ymateb i lythyr diweddaraf y Cyngor ynghylch Canolfan Iechyd Aberteifi	Cytunwyd nad oes pwrpas i wneud mwy am hyn gan weld sut bydd pethau'n mynd yn y lleoliad newydd.
38	Social Farms and Gardens	Cais am wybodaeth am randiroedd y mae'r Cyngor yn eu darparu	Clerc i anfon nôl i ddweud nad oes gennym randiroedd i'w nodi.
39	Dave a Pat Haskell	Cais am gymorth wrth y Cyngor ynglŷn â mater cynllunio.	Cafwyd gwybod bod y Pennaeth Cynllunio, Swyddog Cynllunio a Mr a Mrs Haskell wedi cyfarfod a bod popeth wedi'u datrys. Clerc i anfon llythyr atynt i'r perwyl hwn.
40	Un Llais Cymru	Gwybodaeth am Ddyletswydd Adran 6 mewn cysylltiad â bioamrywiaeth a chydnerthed ecosystemau	Trafodwyd yr angen i baratoi adroddiad. Clerc i wneud hyn cyn diwedd y flwyddyn galendr.
41	Rheoleiddiwr Pensiynau	Nodyn atgoffa i ailymrestru pensiynau'r gweithle	Nodwyd

## **10. Materion Eraill:**

- (a) **Sat Nav i Waungelod:** Dywedodd y Cyng. Lyn Jones iddo ymweld â'r gyffordd sy'n arwain at y ffordd hon. Dywedodd fod arwydd T amlwg yno ond mae'n bosibl y gallai fod wedi'i leoli'n well. Dywedodd y Cyng. Clive Davies y gallai gysylltu â'r Cyngor Sir i weld a oes modd ei symud rhyw ychydig. Ni all y Cyngor Cymuned wneud dim yn hyn o beth.
- (b) **Poster i Baw Cŵn:** Dywedodd y Cyng. Llinos Price iddi siarad â'r ysgol gyda'r bwriad o greu rhagor o bosteri ar ôl y Sioe Nadolig. Roedd rhai wedi'u hanfon at y Cyngor Sir i'w creu a byddai mwy'n cael eu creu gan EL Jones maes o law.
- (c) **Diffibriliwr y Ferwig:** Gan nad yw'r ciosg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ffôn erbyn hyn, cafwyd awgrym i'w ddefnyddio i letya'r diffibriliwr

## **11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:**

- (a) **Diffibriliwr Mwnt** – Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn hapus i wneud y trydan. Bydd Sheila a Jenny'n codi arian ar ei gyfer.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (b) **Gwelliannau i Heol Mwent** – Crybwyllwyd bod y gwaith hyn bellach wedi dod i ben a bod dipyn mwy o le i geir fynd heibio'i gilydd erbyn hyn.
- (c) **Ystafell Berkley** – Dywedodd nawr fod y gwaith i brynu Hen Ysgol y Ferwig wedi dod i ben, roedd modd troi ei olygon i Ystafell Berkley. Roedd Annette eisoes wedi siarad am gael grant i wneud gwelliannau iddo.
- (d) **Llinellau Melyn Patch** – Cafwyd adroddiad ar 5 Tachwedd oedd yn cynnwys y cynlluniau ar gyfer Patch. Llinellau melyn yn debygol o gael eu peintio yn y Gwanwyn, adeg tywydd sych. Gofynnodd y Cyng. Llinos Price am y llinellau roedd eu hangen ym Mhenyparc a dywedwyd y byddai'r ymgynghoriad nesaf yn 2020.
- (e) **Casglu sbwriel yn Patch** – Dywedodd i hyn ddigwydd yn ddiweddar oedd yn cydfynd ag Aberteifi'n gobeithio mynd yn ddi-blastig

## 12. Dyddiad y cyfarfod nesaf 6 Ionawr (F)

### Cyfarfodydd y Cyngor am 2020:

3 Chwefror (YB) 2 Mawrth (F) 6 Ebrill (YB) 4 Mai - CB (F) 1 Mehefin (YB)  
6 Gorffennaf (F) 7 Medi (YB) 5 Hydref (F) 2 Tachwedd (YB) 7 Rhagfyr (F)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig    YB = Ystafell Berkley    CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 2 December, 2019 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc.

### Present

Cllr. Auriol Williams (*Chair*)

Cllr. Lyn Jones

Cllr. Des Davies

Cllr. Dilwyn Jenkins

Cllr. Clive Davies (Local member of the County Council)

Cllr. Lloyd Jenkins (*Vice Chair*)

Cllr. Eurig Lloyd

Cllr. Llinos Price

Mrs Melanie Davies (*Clerk*)

- 1. Chairperson's welcome:** The Chair, Cllr. Auriol Williams, welcomed everyone to the December meeting. She thanked Cllr. Lloyd Jenkins for chairing the November meeting. She wished Nerys (one of the community's inhabitants) well as she is about to go to Afghanistan for 7 months. Awen, Hafod was congratulated for saving the life of a lady in Australia after donating her bone marrow.
- 2. Apologies for absence:** Cllrs. Matthew Morgan, Delyth Phillips, Peter Williams.
- 3. Minutes of the previous meeting**  
It was proposed by Cllr. Des Davies and seconded by Cllr. Lyn Jones that the minutes of the November meeting be recorded as correct.
- 4. Declaration of personal interests: Clerk:**
- 5. Matters arising:**
  - (a) Senior Citizens' Christmas Dinner:** Friday, 6<sup>th</sup> December. A bingo and raffle for the residents coming to the dinner was discussed. The possibility of raising funds for a local charity during the lunch was discussed (through the raffle).
  - (b) Cones at Patch:** A complaint has been received that cars are driving towards the middle of the road. It was stated that yellow lines will be painted in April. Following this, the need for yellow lines in Penyparc was raised for the safety of people travelling by wheelchair around the village.
  - (c) Heol Parcllwyd:** The Council has been out filling potholes. The state of the road is now reasonable.
  - (d) Clerk's Resignation:** The Chair expressed her sadness that the Clerk wishes to resign. Cllr. Lyn Jones suggested talking to possible candidates and the need to advertise the post was discussed. It was decided to advertise in the Gambo and Dwrgi and use the Facebook page, website and noticeboards.
  - (e) Hen Ysgol y Ferwig:** It was stated that papers were about to be signed which would mean that the community will own the old school. It's possible that it will be problematic to use the Hen Ysgol for Council meetings as the repairs are ongoing during the next few months. It's possible that the Penyparc Chapel vestry will need to be used in the meantime.
- 6. Requests for financial support**  
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.
- 7. Planning:**

	<i>Address and purpose</i>	<i>Council's observations.</i>
A190781	Teifi Boating Club, Coronation Drive Erecting two sheds	The Council has no objection. Comments were forwarded to the Council on 25 November 2019.

### 8. Financial Matters.

#### Bills paid:

Clerk's salary (November 2019)

101818

£385.97

Clerk's expenses (November 2019)

101819

£52.15

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

HMRC: Clerk's Income Tax (October 2019)		Nil
SLCC: Membership 2020	101820	£114.00
Cllr. Auriol Williams (Second instalment of the Chair's 6 monthly allowance)	101821	£250.00
Penyparc YFC: (Cleaning of Changing Rooms)	101822	£225.00
Penyparc YFC: (Cleaning of Changing Rooms)	101823	£225.00

It was proposed by Cllr. Llinos Price and seconded by Cllr. Dilwyn Jenkins that the above bills be paid.

## **Other financial matters**

Budget Document 2020-2021: Councillors reviewed the document and the Clerk will review it prior to the January meeting.

Receipts: None.

## **9. Correspondence:**

35	Cardigan Oxygen Therapy Centre	Card thanking for the financial donation	Nodwyd
36	Ceredigion County Council (Finance and Procurement)	Letter and precept form for 2020-2021	To be looked at in January
37	Jill Patterson, Hywel Dda University Health Board	Response to the Council's latest letter regarding Cardigan Health Centre	It was agreed that there is no purpose in doing more until we see how things are going at the new location.
38	Social Farms and Gardens	Request for information about allotments that the Council provides	Clerk to respond stating that there are no allotments to note.
39	Dave and Pat Haskell	Request for help from the Council regarding a planning issue.	Councillors were informed that the Head of Planning, the Planning Officer and Mr and Mrs Haskell had met and that all had been resolved. Clerk will send them a letter to this end.
40	One Voice Wales	Information regarding Section 6 - the biodiversity and resilience of ecosystems duty	The need to prepare a report was discussed. Clerk will do this prior to the end of the calendar year.
41	Pensions Regulator	Reminder to re-enrol workplace pensions	Noted

## **10. Other Matters:**

- (a) **Sat Nav to Waungelod** – Cllr. Lyn Jones noted that he had visited the junction leading to this road. He stated that there was a visible T sign there but it's possible it could be better located. Cllr. Clive Davies stated that he could contact the County Council to see if it could be moved slightly. The County Council can't do anything with regards to this.
- (b) **Dog Mess Posters** – Cllr. Llinos Price noted that she had spoken to the school with the intention of creating more posters after the Christmas show. Some had been sent to the County Council to be created and more would be created by EL Jones in due course.
- (c) **Ferwig Defibrillator:** As the kiosk is now not used to phone nowadays, it was suggested that it be used to house the defibrillator.

## **11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:**

- (a) **Mwnt Defibrillator** – The National Trust is happy to sort the electricity. Sheila and Jenny will raise funds for it.
- (b) **Improvements to the Mwnt Road** – It was mentioned that this work is now coming to an end and there is a lot more space now for vehicles to pass each other.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (c) **Ystafell Berkley** – It was stated that since the work of purchasing Hen Ysgol y Ferwig had now come to an end, he could turn his sights to Ystafell Berkley. Annette has already been discussing grants to make improvements to it.
- (d) **Yellow Lines at Patch** – A report was received on 5 November which included plans for Patch. Yellow lines are likely to be painted in the Spring, when the weather's favourable. Cllr. Llinos Price asked about the lines needed in Penyparc, and it was stated that the next consultation would be in 2020.
- (e) **Litter pick at Patch** – This happened recently which coincided with Plastic-free Cardigan.

**12. Date of next meeting:** 6 January (F)

**Dates of Council Meetings for 2020:**

3 February (YB) 2 March (F) 6 April (YB) 4 May - AGM (F) 1 June (YB)  
6 July (F) 7 September (YB) 5 October (F) 2 November (YB) 7 December (F)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting